# FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-24

Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa, Aberaeron
Ceredigion, SA46 0PA

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-24

Paratowyd adroddiad blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol â Rheoliad 16 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.

Mae'r adroddiad yn edrych ar weithrediad y Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2023-2024 ac yn nodi rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y cyfnod.

## SWYDDOGION Y FFORWM

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Peter White |
| Is-gadeirydd: | Dic Evans |
| Ysgrifennydd: | Eifion Jones (Cyngor Sir Ceredigion) |

## CYNNWYS


1. FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION ............................................
2. AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL...........................................
3. GWEITHGAREDDAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL, 2023-2024............
4. RHAGLEN WAITH, .........................................................................


ATODIADAU

A Cynllun Ceredigion

B Swyddogaethau Fforwm Mynediad Lleol: Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

C Aelodaeth Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion

# 1. FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, a adwaenir o hyn ymlaen fel y 'Fforwm', ym mis Ebrill 2002 o dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r Fforwm yn cyflawni swyddogaeth cynghori'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch gwella llwybrau cyhoeddus i dir yn yr ardal honno at ddibenion hamdden yn yr awyr agored a mwynhad yr ardal.[1] (Atodiad B).

Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, dylai'r Fforwm roi sylw i[2]:

- Anghenion rheoli tir;
- Dymunoldeb gwarchod harddwch naturiol yr ardal, gan gynnwys ei bywyd gwyllt, ei daeareg a'i thirffurf; ac
- Arweiniad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Daeth cyfnod tair blynedd y Fforwm blaenorol i ben ym mis Mawrth 2021 a phenodwyd Fforwm newydd ar gyfer y cyfnod 2022-25 yn unol â'r Rheoliadau.[3].

Gwnaeth y Fforwm gyfarfod bedair gwaith yn 2023 - 2024:

20fed Ebrill 2023
27ain Gorffennaf 2023
20fed Hydref 2023
25ain Ionawr 2024

Mae holl gyfarfodydd y prif Fforwm bellach yn hybrid gyda'r elfen wyneb yn wyneb yn cael ei chynnal ym Mhenmorfa. Mae gwelliannau mewn technoleg wedi helpu gyda rhedeg y cyfarfodydd hybrid ac mae'r gallu i ymuno ar-lein wedi helpu gydag aelodau nad ydynt fel arall yn gallu bod yn bresennol yn bersonol. Rhoddwyd hysbysiad o gyfarfodydd y Fforwm, gan gynnwys agendâu a gwybodaeth arall, ar dudalen we'r Fforwm sydd ar wefan Cyngor y Sir[4].

Gwnaeth is-bwyllgor Cynllun Gwella'r Hawliau Tramwy gyfarfod i ystyried cynnydd Cynllun Gwella'r Hawliau Tramwy ac adolygu'r 'Rhwydwaith Llwybrau Sylfaenol' bob chwe mis. Cynhaliwyd cyfarfodydd o bell ar:

2il Mai 2024
28ain Tachwedd 2023

---

1 Adran 94(4), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
2 Adran 94(6), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
3 Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001
4 Fforwm Mynediad Lleol - Cyngor Sir Ceredigion

## 2. AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

Cyngor y Sir (fel 'awdurdod penodi') sy'n gyfrifol am ddewis aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae'r Fforwm yn cynnwys cadeirydd a dirprwy gadeirydd a rhwng 10 ac 20 o aelodau eraill. Mae'n ofynnol i'r awdurdod benodi aelodau sy'n cynrychioli defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus neu dir mynediad; perchnogion/meddianwyr tir mynediad neu dir y mae hawliau tramwy cyhoeddus yn bodoli drosto ac eraill sydd â diddordebau sy’n berthnasol i’r Sir. Mae'r awdurdod wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddwyr tir mynediad a hawliau tramwy a thirfeddianwyr/meddianwyr wrth benodi aelodau'r Fforwm.

Mae aelodau'r Fforwm yn eistedd am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y penodiad (oni bai ei fod wedi’i derfynu fel arall). Yn 2022 penododd Cyngor y Sir aelodau i eistedd am y cyfnod 2022-2025. Dangosir aelodaeth y Fforwm yn Atodiad C.

Caiff sylwedydd statudol fynychu cyfarfodydd y Fforwm o Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae cynrychiolwyr o’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd wedi’u gwahodd i gyfarfodydd yn ystod y cyfnod 2022-2025 fel sylwedyddion ac ymgynghorwyr; ceir gwahodd sefydliadau ychwanegol o bryd i'w gilydd drwy gydol y cyfnod os yw'r aelodau'n meddwl y bydd yn ychwanegu gwerth a diddordeb at waith y Fforwm.

Cynhaliwyd adolygiad o’r aelodaeth yn ystod y flwyddyn gan nad oedd nifer fechan o unigolion wedi mynychu cyfarfodydd ers peth amser. Cafodd pob unigolyn nad oedd wedi mynychu lythyrau yn gofyn iddynt fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol neu y byddai eu haelodaeth yn cael ei therfynu. Mae enw’r unigolion hynny nad ydynt bellach yn aelodau o’r Fforwm Mynediad Lleol wedi’i ddileu yn Atodiad C.

Cytunodd yr aelodau ar gais gan Jane Evans sy'n gynrychiolydd lleol Cymdeithas Ceffylau Prydain ac o gefndir ffermio i ymuno â'r Fforwm.

Cytunwyd ar gais gan Anthony Jones Rheolwr Datblygu Rhwydwaith Sustrans i fynychu cyfarfodydd y Fforwm yn unol â Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001).

Er mwyn cadw cydbwysedd o ran diddordebau, gofynnodd yr aelodau am ymdrechion i recriwtio aelodau newydd i'r Fforwm gan ganolbwyntio'n benodol ar y rheini o gefndir amaethyddol a'r rheini sydd â diddordeb mewn gyrru hamdden oddi ar y ffordd. Er bod ymdrechion yn dal i gael eu gwneud o ran aelodau newydd o gefndir ffermio, cytunodd yr aelodau ar gais gan Mark Webb sydd â chysylltiadau â’r *Trail Riders Fellowship*.

## 3. GWEITHGAREDDAU’R FFORWM MYNEDIAD LLEOL 2023-2024

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at brif feysydd gwaith y Fforwm yn 2023-2024. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm yn rhoi disgrifiad manylach o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

### 1. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion.

Mae Cynllun Gwella’r Hawliau Tramwy yn rhoi fframwaith ar gyfer rheoli Hawliau Tramwy a mynediad yng Ngheredigion am gyfnod o 10 mlynedd. Mae'n ddogfen allweddol i'r Fforwm oherwydd ei bod yn rhoi cyd-destun ar gyfer rhaglen waith y Fforwm ac yn fodd o asesu cynnydd o ran gwella hawliau tramwy a mynediad.

Mae is-bwyllgor sefydlog yn goruchwylio cynnydd y Cynllun ac yn adolygu'r 'Rhwydwaith Llwybrau Sylfaenol' bob chwe mis. Gwnaeth yr is-bwyllgor hwn gyfarfod ddwywaith yn ystod y cyfnod yn gwneud gwaith gwerthfawr wrth archwilio materion a ddaeth i law am y rhwydwaith.

Adolygwyd cynllun cyflawni Cynllun Gwella’r Hawliau Tramwy ar gyfer 2022/23 a chytunwyd ar y cynllun cyflawni ar gyfer 2023/24.

Bu aelodau’r is-bwyllgor hefyd yn cymryd rhan mewn rhywfaint o hyfforddiant arolygu llwybrau gyda’r nod o gynorthwyo tîm yr Hawliau Tramwy gydag arolygiadau ac adroddiadau yn y dyfodol.

### 2. Adborth o gyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol yn y Drenewydd 4ydd Hydref 2023

Rhoddodd y Cadeirydd adborth o gyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt, a fynychwyd gan y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a Richard Price fel Cadeirydd is-bwyllgor Cynllun Gwella’r Hawliau Tramwy.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn amrywio o strategaeth hamdden ddatblygol Cyfoeth Naturiol Cymru a diwygiadau Mynediad Llywodraeth Cymru. Roedd rhai themâu cyffredin yn deillio o fynychwyr ynghylch yr anhawster o ran dweud wrth Gyfoeth Naturiol Cymru am broblemau ac anhawster cyfathrebu â thimau Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymhlith timau Cyfoeth Naturiol Cymru, yn enwedig o ran mynediad a, chwympo coed a digonolrwydd ymgysylltu â’r cyhoedd a hysbysiadau cyhoeddus ac ati yn ystod gweithrediadau cwympo coed.

3. **Adborth o Gyfarfod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol Gorffennaf 6ed 2023**

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi arsylwi ar gyfarfod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn ddiweddar lle codwyd y mater am gŵn ar denynnau a’r cod cefn gwlad unwaith eto. Soniodd hefyd am y drafodaeth am ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Strategaeth Hamdden Cyfoeth Naturiol Cymru.

4. **Gwenno Griffiths (GG) Ymddiriedolaeth Genedlaethol Hafod**

Rhoddodd Gwenno Griffiths drosolwg o'i rôl fel rheolwr gweithredol yn safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Hafod, gan esbonio sut mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cymryd rheolaeth o'r dirwedd o Ymddiriedolaeth yr Hafod, gan dynnu sylw at yr heriau, y cyfleoedd a'r gweithgareddau.

5. **Tirweddau Hanesyddol: Dr Toby Driver (TB) Uwch Ymchwilydd y Comisiwn Brenhinol, Cymru**

Rhoddodd Dr Toby Driver, swyddog arolygu awyr archeolegol gyflwyniad am ei waith yn ymwneud â thirweddau hanesyddol a sut y gellid defnyddio'r lluniau a gynhyrchir ar draws y sir a thu hwnt mewn senarios bob dydd.

6. **Rhaglenni/Gweithgareddau Hawliau Tramwy a Mynediad**

Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau rheolaidd ar faterion hawliau tramwy a mynediad, gan gynnwys gwaith a gwblhawyd o dan Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru a grantiau cynnal a chadw/datblygu Llwybr Arfordir Cymru.

7. **Cyfleoedd Hyrwyddo Mynediad (Gwenfair Owen a Jill Lowry Cyngor Sir Ceredigion)**

Rhoddodd Gwenfair Owen a Jill Lowry drosolwg o sut mae mynediad a hamdden yn cael eu hyrwyddo ar draws y sir a thu hwnt i drigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

## 8. Ymatebion i ymgynghoriadau

Ymatebodd y Fforwm i ymgynghoriadau yn ymwneud â gwaith adfer ym mwynglawdd Wemyss, Pont-rhyd-y-groes a Mwynglawdd Cwmystwyth.

Mynychodd aelodau'r Fforwm gyfarfodydd yn ymwneud â Strategaeth Hamdden Cyfoeth Naturiol Cymru a chyflwynwyd ymateb i ymgynghoriad drwy holiadur ar-lein.

Ymatebodd y Fforwm i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

## 4. RHAGLEN WAITH, 2022 – 2025

Mae rhaglen waith arfaethedig y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer 2022-25 wedi'i nodi isod (y cytunwyd arni yng nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 19eg Ionawr 2023).

Datblygwyd y rhaglen waith yn wreiddiol ar ddechrau cyfnod newydd y Fforwm yn 2022 ac mae'n cynnwys eitemau a fydd yn cael eu hystyried dros gyfnod hwy. Nid yw'n cynnwys y materion tymor byr sydd fel arfer yn codi i'w cynnwys mewn agendâu. Mae croeso i aelodau'r Fforwm awgrymu eitemau agenda ar gyfer unrhyw gyfarfod.


| Eitem |
|---|
| |
| Taith Teifi |
| Prosiect Pendinas |
| Adroddiad gan Reolwr lleol Cyfoeth Naturiol Cymru ar y camau a'r cynlluniau yng Ngheredigion o ran mynediad a chyfleusterau hamdden. |
| Diweddariad Diwygiadau Mynediad. Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru |
| Menter Mynyddoedd Cambria – Statws AHNE |
| Menter Mynyddoedd Cambrian (adroddiad mynediad/hamdden) |

| |
|---|
| Prosiect Llwybrau i Lesiant – diweddariad gan Gymdeithas y Cerddwyr |
| Prosiect Portalis |
| Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ceredigion – |
| Coed y Bont – Pontrhydfendigaid |
| Coetir Cymunedol Longwood |
| Addysg ynghylch defnydd diogel o lwybrau aml-ddefnyddiwr |
| Cyllid ar gyfer prosiectau mynediad |
| Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol – |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Ystâd Hafod |

## ATODIADAU

### Atodiad A

CEREDIGION: ARDAL Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL




*Atgynhyrchwyd o fapio'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr HMSO*
*© Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron ac efallai yr arweinia at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Ceredigion Lce Rhif 100024419, 2012*

**Atodiad B**

SWYDDOGAETHAU FFORWM MYNEDIAD: DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000

94(4) Mae'n swyddogaeth fforwm mynediad lleol, o ran yr ardal y mae wedi'i sefydlu ar ei chyfer i gynghori –

(a) yr awdurdod penodi
(b) unrhyw gorff sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran I mewn perthynas â thir yn yr ardal honno,
(c) os yw'r awdurdod penodi yn awdurdod Parc Cenedlaethol, awdurdod lleol y priffyrdd ar gyfer unrhyw ran o'r tir hwnnw, a
(d) cyrff eraill o'r fath fel y gellir eu pennu.

ynghylch gwella llwybrau cyhoeddus i dir yn yr ardal honno at ddibenion hamdden yn yr awyr agored a mwynhad o'r ardal.

94(5) Rhaid i'r cyrff a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (d) o isadran (4) roi sylw, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan fforwm mynediad lleol o dan yr isadran hon neu unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon.

94(6) Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i fforwm mynediad lleol roi sylw i –

(a) anghenion rheol tir,
(b) dymunoldeb gwarchod harddwch naturiol yr ardal y mae wedi'i sefydlu ar ei chyfer, gan gynnwys fflora, ffawna a nodweddion daearegol a ffisiograffigol yr ardal, ac
(c) canllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (o ran Lloegr) neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (mewn perthynas â Chymru).

**Atodiad C**

AELODAETH O FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION (2022- 2025)

| **Enw** | **Aelod blaenorol o'r Fforwm Mynediad Lleol** |
|---|---|
| Aeron Jenkins | Oedd |
| ~~**Chris Thomas (Mrs)**~~ | ~~**Nac oedd**~~ |
| David Beale | Nac oedd |
| Dic Evans (Is-gadeirydd) | Oedd |
| ~~**Emma Davies**~~ | **Nac oedd** |
| Felicity Wills | Oedd |
| Glyn Davies | Oedd |
| James Williams | Nac oedd |
| ~~**Mari Davies**~~ | Nac oedd |
| Maurice Kyle | Nac oedd |
| Peter White (Cadeirydd) | Nac oedd |
| Raymond Ricketts | Nac oedd |
| Richard Price | Nac oedd |
| Robert Griffiths | Oedd |
| Robin Young | Nac oedd |
| William Bobbett | Nac oedd |

| | |
|---|---|
| Helen Donnan | Nac oedd |
| Y Cynghorydd Clive Davies (Cyngor Sir Ceredigion) | Nac oedd |
| David Hart Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Sylwedydd/Ymgynghorydd) | Nac oedd |
| Michael Smith Cyfoeth Naturiol Cymru (Sylwedydd/Ymgynghorydd) | Oedd |
| Anthony Jones Rheolwr Datblygu Rhwydwaith Sustrans (Sylwedydd/Ymgynghorydd) | Nac oedd |
| Mark Webb | Nac oedd |
| Jane Evans | Nac oedd |